WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adolygiad dilynol Iechyd yr Amgylchedd – **Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili**


Blwyddyn archwilio: 2018-19

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1603A2019-20

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili fel rhan o waith a wnaed yn unol ag Adran 18 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ac adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004). Gall hefyd lywio ein gwaith archwilio o dan adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

This document is also available in English. Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Ginette Beal a Lidia Vorontsova o Grant Thornton LLP o dan gyfarwyddyd Non Jenkins a Sara-Jane Byrne.

# Cynnwys

Mae'r Cygnor wedi gweithredu ar yr argymhellion a wnaed yn 2014. Dylai'r Cyngor ddefnyddio ei sefyllfa ariannol gadarn i ystyried ffyrdd mwy arloesol o sicrhau cynaliadwyedd ariannol a gweithredol hirdymor gwasanaethau iechyd yr amgylchedd, a chyfrannu at amcanion strategol ehangach y Cyngor ar yr un pryd.

Adroddiad cryno 4

Adroddiad manwl

Ar y cyfan, gwelsom fod y Cyngor wedi gweithredu ar yr argymhellion a wnaed yn 2014. Dylai'r Cyngor ddefnyddio ei sefyllfa ariannol gadarn i ystyried ffyrdd mwy arloesol o sicrhau cynaliadwyedd ariannol a gweithredol hirdymor gwasanaethau iechyd yr amgylchedd, a chyfrannu at amcanion strategol ehangach y Cyngor ar yr un pryd 11

Caiff gwasanaethau iechyd yr amgylchedd eu hystyried fel mater o drefn o fewn trefniadau craffu'r Cyngor. Rhoddir hyfforddiant a chymorth i alluogi'r Aelodau i gynnig her effeithiol 11

Hyd yn hyn, prin fu'r toriadau neu'r newidiadau i'r gwasanaeth iechyd yr amgylchedd. Pan gafwyd achosion o'r rhain, mae'r Cyngor wedi ymgysylltu â phreswylwyr ac wedi defnyddio'r canfyddiadau i lunio penderfyniadau mewn modd tryloyw 11

Mae'r Cyngor yn deall y cydbwysedd rhwng gwasanaethau statudol ac anstatudol ac yn ei ystyried yn ei gynlluniau ar gyfer y dyfodol 12

Hyd yn hyn, ni fu pwysau sylweddol ar y Cyngor i sicrhau arbedion o fewn iechyd yr amgylchedd, ond mae'n ystyried sut y gall fod angen i wasanaethau newid yn y dyfodol 12

Ar lefel gwasanaeth, mae trefniadau cynllunio strategol da ar waith, gyda blaenoriaethau ac amcanion clir. Mae'r rhain yn cyd-fynd ag amcanion llesiant a chanlyniadau strategol y Cyngor 13

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Pa wybodaeth a adolygwyd gennym a pham

1 Fel rhan o'i gyfres o Astudiaethau Gwella Llywodraeth Leol 'cyflawni â llai', cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol ei adroddiad – Cyflawni â llai – ar yr effaith ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd a dinasyddion ym mis Hydref 2014.

2 Yn yr adroddiad hwn, tynnodd yr Archwilydd Cyffredinol sylw hefyd at y ddeddfwriaeth ddiweddar a'r ddeddfwriaeth sydd ar ddod, a phryderon cynghorau na fyddent yn gallu cyflawni'r ymrwymiadau a geir ynddi. Rhoddwyd llawer o'r cynigion deddfwriaethol y cyfeiriwyd atynt yn adroddiad 2014 yr Archwilydd Cyffredinol ar waith wedi hynny, gan gynnwys: Deddf Tai (Cymru) 2014, Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016.
Pasiwyd Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) hefyd yn 2017.

3 Cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol adroddiadau lleol ar gyfer pob cyngor hefyd fel rhan o astudiaeth 2014.

4 Mewn llythyr at brif weithredwyr awdurdodau lleol ar 11 Ionawr 2018, nododd yr Archwilydd Cyffredinol ei fwriad i wneud rhywfaint o waith thematig a fyddai'n fwy cyson â'i raglen Astudiaethau Llywodraeth Leol. Diben cysoni gwaith thematig â'r rhaglen Astudiaethau Llywodraeth Leol yw gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau archwilio wrth gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol ac ar yr un pryd sicrhau y cymerir 'camau dilynol' ynghylch problemau, themâu a gwersi a nodwyd mewn adroddiadau Astudiaethau Llywodraeth Leol ac y cânt eu harchwilio ar y cyd â chynghorau yn lleol yn ystod y blynyddoedd canlynol.

5 Asesodd yr adolygiad hwn a fu unrhyw newidiadau i gyllideb a staff gwasanaethau iechyd yr amgylchedd y Cyngor ac i ba raddau y mae wedi mynd i'r afael â'r argymhellion a gafodd eu cynnwys yn ein hadroddiad cenedlaethol yn 2014. At ddibenion yr adolygiad hwn, gwnaethom ganolbwyntio ar gynnydd y Cyngor o ran mynd i'r afael ag argymhellion 2, 3, 4 a 5 yr adroddiad cenedlaethol.

6 Roedd yr adroddiad yn cynnwys chwe argymhelliad sy'n cael eu nodi yn Arddangosyn 1 drosodd.

Arddangosyn 1 – argymhellion a wnaed yn adroddiad cenedlaethol 2014, Cyflawni â llai – yr Effaith ar Wasanaethau Iechyd yr Amgylchedd a Dinasyddion

| Argymhelliad | Partneriaid Cyfrifol |
|---|---|
| A1 Diwygio'r safonau arfer gorau er mwyn:<br>• cysoni gwaith ym maes iechyd yr amgylchedd â blaenoriaethau strategol cenedlaethol;<br>• nodi cyfraniad ehangach iechyd yr amgylchedd at gyflawni blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru; a<br>• nodi buddiannau ac effaith gwasanaethau iechyd yr amgylchedd o ran diogelu dinasyddion. | Cynghorau, Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd Cymru |
| A2 Rhoi'r sgiliau a'r cymorth sydd eu hangen ar gadeiryddion ac aelodau pwyllgorau craffu i graffu ar berfformiad gwasanaethau, cynlluniau arbed ac effaith gostyngiadau cyllidebol a'u herio'n effeithiol. | Cynghorau, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| A3 Ymgysylltu'n well â thrigolion lleol ynghylch cynlluniau i dorri cyllidebau a newid gwasanaethau drwy:<br>• ymgynghori â thrigolion ar newidiadau arfaethedig mewn gwasanaethau;<br>• defnyddio'r canfyddiadau i lunio penderfyniadau;<br>• amlinellu pa wasanaethau a gaiff eu torri a sut y bydd y toriadau hyn yn effeithio ar drigolion; a<br>• nodi cynlluniau i gynyddu taliadau neu newid safonau gwasanaeth. | Cynghorau, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |

| Argymhelliad | Partneriaid Cyfrifol |
|---|---|
| A4 Gwella effeithlonrwydd a gwerth am arian drwy:<br>• nodi dyletswyddau statudol ac anstatudol gwasanaethau iechyd yr amgylchedd cynghorau;<br>• cytuno ar flaenoriaethau iechyd yr amgylchedd ar gyfer y dyfodol a rôl cynghorau wrth gyflawni'r rhain;<br>• pennu 'safon dderbyniol o berfformiad' ar gyfer gwasanaethau iechyd yr amgylchedd (uchaf ac isaf) a rhoi cyhoeddusrwydd iddynt ymhlith dinasyddion;<br>• gwella effeithlonrwydd a chynnal perfformiad ar y lefel y cytunwyd arni drwy wneud y canlynol:<br>– cydweithio a/neu integreiddio ag eraill er mwyn lleihau costau a/neu wella ansawdd;<br>– gosod gwasanaethau ar gontractau allanol lle y gellir eu darparu mewn ffordd fwy cost-effeithiol yn unol â'r safonau y cytunwyd arnynt;<br>– cyflwyno a/neu gynyddu taliadau a chanolbwyntio ar weithgarwch sy'n cynhyrchu incwm;<br>– defnyddio grantiau mewn ffordd strategol er mwyn sicrhau'r effaith a'r elw mwyaf; a<br>– lleihau gweithgareddau er mwyn canolbwyntio ar flaenoriaethau statudol a strategol craidd. | Cynghorau, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Llywodraeth Cymru |

| Argymhelliad | Partneriaid Cyfrifol |
|---|---|
| A5 Gwella gwaith cynllunio strategol drwy:<br>• nodi, casglu a dadansoddi data ariannol, data ar berfformiad a data ar alw/angen mewn perthynas â gwasanaethau iechyd yr amgylchedd;<br>• dadansoddi data a gasglwyd er mwyn llywio a deall y gydberthynas rhwng 'cost: budd: effaith' a defnyddio'r wybodaeth hon fel sail i benderfyniadau ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd cynghorau yn y dyfodol; a<br>• chytuno sut y gellir defnyddio gwybodaeth ddigidol i gynllunio a datblygu gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn y dyfodol. | Cynghorau |
| A6 Nodi'n glir yr hyn a ddisgwylir gan wasanaethau iechyd yr amgylchedd cynghorau o dan ddeddfwriaeth tai ac iechyd newydd a chytuno sut y caiff y dyletswyddau newydd hyn eu cyflawni. | Llywodraeth Cymru,<br>Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |

7 Gwnaethom gynnal yr adolygiad hwn rhwng mis Gorffennaf 2019 a mis Hydref 2019.

## Yr hyn a ganfuwyd gennym

8 Nod ein hadolygiad oedd ateb y cwestiwn: **A yw'r Cyngor wedi gweithredu ar yr argymhellion yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar Iechyd yr Amgylchedd – Cyflawni â Llai – a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2014?**

9 Ar y cyfan, gwnaethom ganfod y canlynol: Mae'r Cyngor wedi gweithredu ar yr argymhellion a wnaed yn 2014. Dylai'r Cyngor ddefnyddio ei sefyllfa ariannol gadarn i ystyried ffyrdd mwy arloesol o sicrhau cynaliadwyedd ariannol a gweithredol hirdymor gwasanaethau iechyd yr amgylchedd, a chyfrannu at amcanion strategol ehangach y Cyngor ar yr un pryd.  Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- caiff gwasanaethau iechyd yr amgylchedd eu hystyried fel mater o drefn o fewn trefniadau craffu'r Cyngor. Rhoddir hyfforddiant a chymorth i alluogi'r Aelodau i gynnig her effeithiol
- hyd yn hyn, prin fu'r toriadau neu'r newidiadau i'r gwasanaeth iechyd yr amgylchedd. Pan gafwyd achosion o'r rhain, mae'r Cyngor wedi ymgysylltu â


phreswylwyr ac wedi defnyddio'r canfyddiadau i lunio penderfyniadau mewn modd tryloyw.

- mae'r Cyngor yn deall y cydbwysedd rhwng gwasanaethau statudol ac anstatudol ac yn ei ystyried yn ei gynlluniau ar gyfer y dyfodol.
- hyd yn hyn, ni fu pwysau sylweddol ar y Cyngor i sicrhau arbedion o fewn iechyd yr amgylchedd, ond mae'n ystyried sut y gall fod angen i wasanaethau newid yn y dyfodol.
- ar lefel gwasanaeth, mae trefniadau cynllunio strategol da ar waith, gyda blaenoriaethau ac amcanion clir. Mae'r rhain yn cyd-fynd ag amcanion Llesiant a chanlyniadau strategol y Cyngor.


## Cefndir

- Hyd yn hyn, mae cyllidebau wedi lleihau o £2.42 miliwn yn 2013-14 i £2.37 miliwn yn 2019-20 (Arddangosyn 2). Mae'r gostyngiad hwn, sef tua 2%, yn llai na'r hyn a welwyd mewn awdurdodau lleol eraill a archwiliwyd hyd yn hyn. Mae'r gostyngiadau cyllidebol a welwyd mewn sefydliadau eraill hyd yn hyn wedi amrywio o 6% i 21%.
- Ers 2015-16, mae'r gwasanaeth iechyd yr amgylchedd wedi bod yn tanwario rhwng 4% a 9% yn erbyn ei gyllideb bob blwyddyn.
- Mae nifer y staff wedi lleihau o 51.25 cyfwerth ag amser llawn (CALl) i 46.26 CALl (Arddangosyn 3), sef lleihad o 4.99 CALl i gyd.
- Rydym ar ddeall na ddisgwylir i'r adnoddau gael eu lleihau ymhellach yn y tymor byr a'r tymor canolig.

Arddangosyn 2 – cost net gwasanaethau iechyd yr amgylchedd: cyllideb refeniw o gymharu ag alldro, 2012-13 i 2018-19



Arddangosyn 3 – nifer y staff (CALI) yn 2014 o gymharu â 2019




# Cynigion ar gyfer gwella

## Arddangosyn 4: cynigion ar gyfer gwella

Mae'r tabl isod yn nodi'r cynigion ar gyfer gwella a nodwyd gennym yn dilyn yr adolygiad hwn.

| **Cynigion ar gyfer gwella** | |
|---|---|
| C1 | Dylai'r Cyngor ystyried sut y gall elwa o'i sefyllfa ariannol gymharol gadarn i sicrhau cadernid hirdymor a chynnal cynaliadwyedd ariannol a gweithredol yn y tymor hwy drwy wneud y canlynol:<br>• gwneud defnydd mwy effeithlon o adnoddau presennol drwy wella prosesau a gweithrediadau;<br>• trawsnewid ac arloesi (yn gyson ag agenda masnacheiddio a thrawsnewid ehangach y Cyngor);<br>• gweithio mewn partneriaeth ag Awdurdodau eraill (yn yr un modd â'r cytundeb darparu gwasanaethau rheoli plâu hanesyddol â Blaenau Gwent); ac<br>• ystyried, drwy waith 'Tîm Caerffili' y Cyngor, a oes gan y gwasanaeth iechyd yr amgylchedd yr adnoddau priodol yng nghyd-destun amcanion strategol ehangach y Cyngor. |

| Cynigion ar gyfer gwella | |
|---|---|
| C2 | Dylai'r gwasanaeth adeiladu ar Strategaeth Cwsmeriaid a Digidol ehangach y Cyngor ac ystyried sut y gall ddefnyddio gwybodaeth ddigidol a data gweithgarwch er mwyn targedu'r gwasanaeth a ddarperir yn erbyn yr angen a rhagweld patrymau'r galw am y gwasanaeth yn y dyfodol. |

# Adroddiad manwl

## Ar y cyfan, gwelsom fod y Cyngor wedi gweithredu ar yr argymhellion a wnaed yn 2014. Dylai'r Cyngor ddefnyddio ei sefyllfa ariannol gadarn i ystyried ffyrdd mwy arloesol o sicrhau cynaliadwyedd ariannol a gweithredol hirdymor gwasanaethau iechyd yr amgylchedd, a chyfrannu at amcanion strategol ehangach y Cyngor ar yr un pryd

### Caiff gwasanaethau iechyd yr amgylchedd eu hystyried fel mater o drefn o fewn trefniadau craffu'r Cyngor. Rhoddir hyfforddiant a chymorth i alluogi'r Aelodau i gynnig her effeithiol

10 Wrth ddod i'r casgliad hwn, gwnaethom ganfod y canlynol:

- mae Pwyllgor Craffu yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn ystyried materion iechyd yr amgylchedd yn rheolaidd;
- mae gan y Cyngor raglen hyfforddi a datblygu barhaus i Aelodau ar waith, sy'n cael ei hadnewyddu bob tair blynedd; ac
- rydym yn nodi bod nifer o sesiynau hyfforddi y gwnaeth yr Aelodau gais amdanynt eisoes wedi cael eu darparu, megis 'Galw i Mewn Effeithiol', 'Sgiliau Cadeirio' a 'Craffu ar Gyllidebau'.

### Hyd yn hyn, prin fu'r toriadau neu'r newidiadau i'r gwasanaeth iechyd yr amgylchedd. Pan gafwyd achosion o'r rhain, mae'r Cyngor wedi ymgysylltu â phreswylwyr ac wedi defnyddio'r canfyddiadau i lunio penderfyniadau mewn modd tryloyw

11 Wrth ddod i'r casgliad hwn, gwnaethom ganfod y canlynol:

- hyd yn hyn, cyfyngwyd ar y newidiadau yn y gwasanaeth iechyd yr amgylchedd i'r canlynol:
  – colli'r Tîm Gwella Iechyd yn 2014;
  – arfarniad o opsiynau ar gyfer gwella ansawdd aer yn ardal Hafodyrynys;
  – drafftio Strategaeth Toiledau'r Cyngor;
- ymgynghorwyd â defnyddwyr gwasanaethau ar y rhain, a chyhoeddwyd yr adborth ochr yn ochr â manylion y penderfyniad terfynol;

- cafodd y penderfyniad i roi terfyn ar y gwasanaeth Gwella Iechyd ei gynnwys yn y broses ymgynghori gyhoeddus ar bennu cyllidebau a'i gefnogi gan Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb; a
- gyda rhai mân eithriadau, nid yw'r Cyngor fel arfer yn codi tâl am wasanaethau iechyd yr amgylchedd, oni bai bod safonau cenedlaethol yn gwneud hynny'n ofynnol.

## Mae'r Cyngor yn deall y cydbwysedd rhwng gwasanaethau statudol ac anstatudol ac yn ei ystyried yn ei gynlluniau ar gyfer y dyfodol

12 Wrth ddod i'r casgliad hwn, gwnaethom ganfod y canlynol:

- mae'r Cyngor wedi nodi a dogfennu'r rhwymedigaethau statudol/dewisol o fewn Diogelu'r Cyhoedd yn glir, sy'n cynnwys iechyd yr amgylchedd;
- mae'r cynllun gwasanaeth pum mlynedd ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd yn nodi blaenoriaethau ac amcanion lefel gwasanaeth, canlyniadau cysylltiedig a sut y mae'r rhain yn cyd-fynd â'r amcanion Llesiant corfforaethol; a
- chytunwyd ar safonau perfformiad derbyniol yn fewnol drwy'r fframwaith rheoli perfformiad, ond ni chawsant ei hyrwyddo i ddefnyddwyr gwasanaethau.

## Hyd yn hyn, ni fu pwysau sylweddol ar y Cyngor i sicrhau arbedion o fewn iechyd yr amgylchedd, ond mae'n ystyried sut y gall fod angen i wasanaethau newid yn y dyfodol

13 Wrth ddod i'r casgliad hwn, gwnaethom ganfod y canlynol:

- mae'r Cyngor wedi gwella neu gynnal ei berfformiad yn erbyn Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus iechyd yr amgylchedd.
- nid yw'r Cyngor yn rhannu unrhyw wasanaethau iechyd yr amgylchedd ag awdurdodau eraill nac yn defnyddio darparwyr allanol ar hyn o bryd.
- nid yw'r Cyngor yn codi tâl am unrhyw wasanaethau iechyd yr amgylchedd ar hyn o bryd, oni bai bod safonau cenedlaethol yn gwneud hynny'n ofynnol.
- nid yw'r Cyngor yn cael symiau sylweddol o gyllid grant.
- hyd yn hyn, yr unig ostyngiad o ran y gwasanaeth a ddarperir fu colli'r tîm Gwella Iechyd yn 2014, sef gwasanaeth cwbl ddewisol. Heblaw am hyn, nid yw'r Cyngor wedi gorfod lleihau gwasanaethau hyd yn hyn o ganlyniad i'w sefyllfa gyllidebol gymharol sefydlog.

## Ar lefel gwasanaeth, mae trefniadau cynllunio strategol da ar waith, gyda blaenoriaethau ac amcanion clir. Mae'r rhain yn cyd-fynd ag amcanion llesiant a chanlyniadau strategol y Cyngor

14 Wrth ddod i'r casgliad hwn, gwnaethom ganfod y canlynol:

- mae fframwaith rheoli perfformiad cynhwysfawr ar waith i sicrhau bod rheolwyr gweithredol yn atebol am berfformiad a chyflawni amcanion;
- gwelsom enghreifftiau o benderfyniadau allweddol yn cael eu hategu gan achosion busnes ac arfarniadau o opsiynau sy'n ystyried y gydberthynas rhwng costau a buddiannau; a
- phrin yw'r dystiolaeth bod gwybodaeth ddigidol a data gweithgarwch yn cael eu defnyddio er mwyn targedu'r gwasanaeth a ddarperir yn agosach yn erbyn yr angen a rhagweld patrymau darparu'r gwasanaeth yn y dyfodol.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru